| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Archwilio |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 29 Gorffennaf 2015 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Y Cynghorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd/<br>Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol, Liz Grieve |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Rhys Burton, Rheolwr Rhaglen, Grŵp y Co-operative. |
| **Teitl:** | **Cymunedau yn Gyntaf Gogledd Sir Ddinbych** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Darpariaeth gyfredol a darpariaeth yn y dyfodol rhaglen 'Cymunedau yn Gyntaf' Llywodraeth Cymru yng Ngogledd Sir Ddinbych gan Grŵp y Co-operative fel y Corff Darparu Arweiniol ar gyfer y rhaglen yn y sir.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Darparu gwybodaeth ynglŷn â'r cynnydd a wnaed gyda Chymunedau yn Gyntaf – gan gynnwys y gwaith sydd ar y gweill gyda'r Grant Amddifadedd Disgyblion sydd wedi'i gadarnhau ar gyfer 2015/16 hefyd. Mae'r adroddiad hefyd yn amlinellu cais pellach a wnaed gan Lywodraeth Cymru i'r Co-operative i gymryd rhan ym mhrosiect 'Cymunedau Dros Waith' sydd wedi derbyn Cyllid Ewropeaidd yn ddiweddar.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Derbyn yr adroddiad a darparu cymorth i Raglen Cymunedau yn Gyntaf a phrosiect Cymunedau Dros Waith i nodi cysylltiadau pellach gyda rhaglenni'r cyngor lle efallai y bydd llwybrau i gyflogaeth yn cael eu darparu ar gyfer preswylwyr nad ydynt mewn cyflogaeth ar hyn o bryd.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn un o raglenni dan Strategaeth Gwrthdlodi Cymru, Llywodraeth Cymru a derbyniwyd £666,020 ar gyfer y gwaith yng Nghlwstwr Gogledd Sir Ddinbych yn 2015/16. Mae llawer o gostau Clwstwr Gogledd Sir Ddinbych yn gostau staff a gwaith a gomisiynwyd i bartneriaid lleol eraill.

*[Gweler y gyllideb ynghlwm i gael manylion pellach ein cyllid]*

Mae gwaith a gefnogir gan Gymunedau yn Gyntaf yn Sir Ddinbych wedi'i fwriadu'n benodol ar gyfer y rhai o fewn ardal clwstwr penodol yn erbyn y canlyniadau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'n ofynnol i ddarpariaeth clwstwr wneud gwaith prosiect ar gyfer yr holl fesuryddion canlyniadau, ond mae'n rhaid i glystyrau Cymunedau yn Gyntaf nodi pa fesuryddion canlyniadau y maent am ganolbwyntio arnynt ac mae'n rhaid i'r Corff Darparu Arweiniol (h.y. y corff rheoli) gytuno'n flynyddol ar y rhain gyda Llywodraeth Cymru.

Deallir gweithgareddau clwstwr yng nghyd-destun 3 thema darparu yn gyffredinol – sef:

- Iechyd a Lles
- Cymunedau Ffyniannus; ac

- Addysg a Dysgu

Gellir symleiddio'r adran Iechyd a Lles yn amcanion cyffredin megis (i) gwella maeth a diet; (ii) ffordd o fyw iachach / yn fwy egnïol; (iii) gwell dealltwriaeth o benderfynyddion iechyd gan unigolion / teuluoedd; (iv) gwell gallu i ymdopi a heriau bywyd a lles emosiynol cryfach; (v) dechrau gwell i fywyd a iechyd hir dymor; a (vi) nodi ffactorau sy'n effeithio ar iechyd personol yn gynt neu ganfod materion iechyd yn gynharach.

Gellir symleiddio'r adran Cymunedau Ffyniannus yn amcanion cyffredin megis (i) cefnogaeth gyda dyled a rheoli arian; (ii) darparu cefnogaeth i baratoi ar gyfer gwaith a hyfforddiant; (iii) cymorth a chyngor i chwilio am swyddi / gwneud cais am swydd; (iv) mentora a chefnogaeth ar gyfer y rhai gyda rhwystrau rhag derbyn cyflogaeth; (v) ymwybyddiaeth ddigidol a chefnogaeth i ddatblygu gallu ar-lein; (vi) mynediad i wasanaethau allweddol (megis cymorth cyffuriau ac alcohol neu gefnogaeth iechyd meddwl)

Gellir symleiddio adran Addysg a Dysgu yn amcanion cyffredin megis (i) cynorthwyo ysgolion i leihau triwantiaeth a gwella lefelau presenoldeb; (ii) cynyddu dyheadau dysgu a dymuniad unigolion a theuluoedd i lwyddo mewn addysg; (iii) cefnogi llythrennedd a rhifedd oedolion; (iv) cynyddu gweithgareddau dysgu teuluol a chymunedol ac arwain at hyfforddiant a chymhwyster; (v) Cefnogi cyflawniad Cyfnod Allweddol yn yr ysgol trwy weithgareddau a gwaith sy'n ategu at y sgiliau sy'n ofynnol ac yn rhoi cyd-destun ychwanegol i ddysgu (e.e. Lego a sgiliau rhaglennu cyfrifiaduron).

*[Gweler y map ardal clwstwr ynghlwm sy'n nodi ein hardal ddaearyddol. Gweler y Fframwaith Canlyniadau ynghlwm i gael rhagor o fanylion hefyd.]*

Deallir darpariaeth Cymunedau yn Gyntaf yng nghyd-destun cydweithredu / cydweithio gyda nifer o bartneriaid o sectorau statudol a chymunedol. Deallir y bydd effaith y rhaglen yn cael ei gyflawni drwy weithio gydag eraill.

Mae ymgysylltu â'r gymuned yn parhau'n elfen bwysig yng nghyfansoddiad y rhaglen ac mae pwyslais ar ymgysylltu â phreswylwyr - fel 'cwsmeriaid' (h.y. y rhai sy'n derbyn neu fuddiolwyr y gwasanaethau neu brosiectau) ac fel unigolion sy'n dymuno cynorthwyo gyda darpariaeth a datblygu prosiect megis gwirfoddolwyr neu bartneriaid fel sefydliad cymunedol.

Mae datblygu cyfranogiad gweithredol y gymuned yn parhau i fod yn her i ni yn ein gwaith yng Ngogledd Sir Ddinbych, ond rydym wedi gweld cynnydd ac wedi gwneud rhai newidiadau strwythurol i'n tîm Cymunedau yn Gyntaf er mwyn darparu 2 swydd ran amser fel Uwch Swyddogion Cynhwysiant Cymunedol.

Mae trawsffurfiad cenedlaethol Cymunedau yn Gyntaf i ardaloedd clwstwr (yn cynnwys maint poblogaeth rhwng 10,000-15,000) yn 2012 wedi arwain at waith ein Cymunedau yn Gyntaf yn tyfu o ardal De Orllewin y Rhyl yn wreiddiol i nifer o gymunedau 'newydd' na fu'n gysylltiedig â'r rhaglen yn flaenorol. Yn y rhan fwyaf o glystyrau eraill yng Nghymru ffurfiwyd yr ardaloedd clwstwr trwy uno cymunedau presennol Cymunedau yn Gyntaf i ardal clwstwr ar y cyd. Fodd bynnag, nid dyma'r achos ar gyfer clwstwr Sir Ddinbych a bu'n rhaid i ni wynebu her ychwanegol o ffurfio a datblygu perthnasau gyda phreswylwyr a sefydliadau cymunedol ar draws ardal

ehangach y clwstwr a ‘dal i fyny’ o ran mynediad sydd gennym yn yr ardaloedd hyn o gymharu ag ardaloedd lle bu’r rhaglen yn weithredol ers dros 10 mlynedd.

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i gynnwys elfennau o ddatblygu cymunedol, ond newidiwyd y ffocws ers 2012 gan osod ein gweithgareddau cefnogaeth gymunedol yng nghyd-destun darparu’r canlyniadau sydd wedi’u cytuno gyda Llywodraeth Cymru. Yn syml, mae angen i ni ddiffinio ein datblygiad cymunedol a gwaith cefnogi yng nghyd-destun y prosiectau a’r amcanion yr ydym wedi’u derbyn fel targedau i’w cyflawni. I ryw raddau mae hyn yn gyfyngol a gall gael ei gamddeall gan breswylwyr sy’n gyfarwydd â diben blaenorol y rhaglen a gan yr asiantaethau hefyd – mae rhai ohonynt yn ffafrio’r cysyniad o Gymunedau yn Gyntaf yn canolbwyntio’n llawn ar ddatblygu cymunedol.

O ran strwythur a diben newydd y rhaglen – rydym yn awr yn cyflwyno Cynllun Cyflawni a thablau cyllid i Lywodraeth Cymru er mwyn derbyn cyllidebau clwstwr. Yng nghyfnodau blaenorol rhaglen Cymunedau yn Gyntaf derbyniwyd cyllid am hyd at 3 blynedd ac roedd angen cynllun blynyddol i gadarnhau rhyddhad y cyllidebau blynyddol. Rydym yn awr yn rhagweld trefniant 1 blwyddyn arall. Mewn unrhyw achlysur, mae angen i ni gyflwyno ffurflen gyllid chwarterol ac adroddiadau prosiect i Lywodraeth Cymru – gydag adroddiadau prosiect ar gael ar-lein ar system Aspireview.

Yn ogystal â chyllideb Cymunedau yn Gyntaf, rydym hefyd wedi derbyn £29,515 ar gyfer prosiect Grant Amddifadedd Disgyblion yr ydym yn ei ddarparu i 7 ysgol gan swyddogion Addysg o fewn y Cyngor. Mae cyllid cyfatebol o £29,515 yn cael ei ddarparu gan yr ysgolion ac mae gwaith y Grant yn cael ei ddarparu trwy ddau Swyddog Gwydnwch Emosiynol ac yn canolbwyntio ar les a strategaethau i ymdopi ag ymddygiadau.

*[Gweler Siart Strwythur Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ynghlwm - sydd hefyd yn nodi gwaith a gomisiynwyd ac mae’n cynnwys swyddi'r Grant. Gweler y gyllideb ynghlwm ar gyfer ein darpariaeth Grant Amddifadedd Disgyblion]*

Nid yw cyllid Cymunedau yn Gyntaf tu hwnt i fis Mawrth 2016 yn hysbys hyd yn hyn ac mae gwaith ar y gweill gan Lywodraeth Cymru i wneud penderfyniad ar gyfer cyfnod 2016/17 ac sy’n adlewyrchu etholiad y Cynulliad ym mis Mai. Fodd bynnag, cafwyd cymeradwyaeth cyllid Ewropeaidd yn ddiweddar ar gyfer rhaglen ‘Cymunedau Dros Waith’ y mae Llywodraeth Cymru wedi’i gyflwyno gyda’r Adran Gwaith a Phensiynau i gefnogi darpariaeth yn y 52 clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru. Mae’r rhaglen wedi’i gynllunio am 3 blynedd a gofynnir i’r holl Gyrff Darparu Arweiniol reoli’r rhaglen ochr yn ochr â'u darpariaeth Cymunedau yn Gyntaf ac i gydleoli darpariaeth y prosiect a’r rhaglen.

Amcanion prosiect Cymunedau dros Waith yw cynorthwyo pobl i dderbyn cyflogaeth a chaiff ei ddarparu gan 5 aelod o staff ym mhob ardal clwstwr. Bydd 2 Ymgynghorydd Cyflogaeth, sy’n cael eu cyflogi a’u rheoli’n uniongyrchol gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a 3 swyddog arall fydd yn cael eu cyflogi gan y Corff Darparu Arweiniol. Mae’r 3 swydd yn cynnwys: 2 swydd mentor ac 1 gweithiwr dosbarthu. Deallir y bydd y gwaith yn targedu’r rhai sydd ag anawsterau derbyn cyflogaeth ac y dylai bod 6 o unigolion (ar gyfartaledd) yn dechrau gweithio bob mis. Mae’r holl Gyrff Darparu Arweiniol yn adolygu dogfennau diweddar gan Lywodraeth Cymru ac yn trafod trefniadau gweithredu ar hyn o bryd.

Heb unrhyw eglurhad pellach ynglŷn â phrif gyllideb Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer 2016/17 mae'n anodd gweld sut y gall unrhyw Gorff Darparu Arweiniol gynllunio ei rôl a rheolaeth lefel clwstwr yn llawn ar gyfer prosiect Cymunedau Dros Waith. Fodd bynnag, disgwyliwn rhagor o wybodaeth am hyn yn fuan ac rydym yn dechrau llunio ein Cynllun Cyflawni ar gyfer 2016/17 – rhagdybiwn y bydd angen ei gyflwyno erbyn mis Hydref. Mae'n debyg y bydd Cyrff Darparu Arweiniol yn derbyn cyngor i gyflwyno cynigion sy'n debyg o ran maint cyllid ac o ran darpariaeth prosiect â'r hyn sy'n cael ei ddarparu yn y flwyddyn bresennol.

Yng nghyd-destun ein ceisiadau am gyllid a chyfraniad y Co-operative fel y Corff Darparu Arweiniol, mae'n bwysig fy mod yn nodi nad yw'r Costau Rheoli o fewn ein cyflwyniadau clwstwr yn cynhyrchu unrhyw elw i'r Co-operative. Mae'r costau a nodwyd ar gyfer 2 ddiben. Y cyntaf yw diwallu costau allanol gennym ni i reoli ein clwstwr (megis datganiad cyfrifon archwilydd allanol – fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru); a'r ail yw i gronni'r arian sydd ei angen i ddiwallu unrhyw gostau diswyddo staff trwy gau'r rhaglen. Mae costau eraill yn gysylltiedig â chynnal y rhaglen, ond mae'r Co-operative yn ei gynnwys yn ein busnes dyddiol oherwydd ein maint a'n graddfa (e.e. swyddogaethau Cyflogau, Adnoddau Dynol a Chyfreithiol).

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Cymunedau yn Gyntaf yn targedu'r ardaloedd o amddifadedd uchaf ac yn ceisio effeithio ar y cymunedau hyn mewn perthynas â 3 thema'r rhaglen. Mae trefniadau partneriaeth a gwaith ar y cyd yn cynnig mwy o ddiddordeb cyffredin sy'n gallu cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y cyngor.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol heblaw bod Cymunedau yn Gyntaf yn darparu adnoddau ychwanegol i feysydd prosiect a gytunwyd gyda'r awdurdod lleol - megis gwaith Grant Amddifadedd Disgyblion mewn ysgolion.

Rydym yn dymuno cofnodi ein diolch a'n gwerthfawrogiad i Gyngor Sir Ddinbych am ein cynorthwyo gyda secondiad ein swydd Rheolwr Clwstwr o fis Medi 2013 i fis Rhagfyr 2014. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r holl gefnogaeth flaenorol a dilynol gan gydweithwyr o'r cyngor, rydym yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth yn ystod y cyfnod secondiad – cyfnod 'sefydlu' hynod bwysig ar gyfer rhaglen newydd Cymunedau yn Gyntaf.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai'r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Mae ystyriaethau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cymunedau yn Gyntaf yn rhan o fframwaith polisi y Co-operative fel y Corff Darparu Arweiniol.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad cymunedol ac ar gyfer asiantaethau yn ystod 2012 ar gyfer cyflwyno Cynllun Cyflawni i Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfnod 2013-2015.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.**

Cyfrifoldeb y Co-operative fel y Corff Darparu Arweiniol yw materion cyllid.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y Co-operative fel y Corff Darparu Arweiniol sy'n gyfrifol am risgiau a chyfrifoldebau rheoli darpariaeth y clwstwr.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amh.